# Antur Fictoraidd

Roderick Hunt    Alex Brychta


Pïod

DRAKE






Roedd Cad a Dids wedi bod
i Lundain gyda Nain.
Roedd ganddyn nhw luniau
i'w rhoi mewn llyfr lloffion.
Roedden nhw am fynd â'r llyfr i'r ysgol.




Daeth Nain i ystafell Cad
i edrych ar lyfr lloffion y plant.
"Cawson ni amser gwych yn Llundain," meddai Cad.
"Diolch, Nain."
Roedd Nain wrth ei bodd.






Yn sydyn, disgleiriodd yr allwedd hud.
Roedd yn bryd cael antur.
Aeth yr hud â'r plant i'r tŷ bychan.
Ond aeth e â Nain hefyd?




Aeth yr hud â nhw yn ôl mewn amser
i stryd ar ddiwrnod niwlog.
Roedd bachgen yn sefyll dan lamp nwy.
Edrychodd yn syn ar y plant.






"Esgusodwch fi," meddai Cad. "Wyddoch chi ble
rydyn ni?"
"Wyddoch chi ddim?" meddai'r bachgen.
"Rydych chi yn Llundain."
Tynnodd ei gap.
Nid bachgen oedd e; merch oedd hi!




"Vicky yw fy enw," meddai'r ferch.
"Rwyf wedi f'enwi ar ôl y Frenhines."
"Pa frenhines?" meddai Cad.
"Y Frenhines Victoria," meddai Vicky.
"Rych chi'n anwybodus iawn!"




"Rwy eisiau bwyd," meddai Vicky.
"Oes arian 'da chi?"
"Na, mae'n ddrwg gyda ni," meddai'r plant.
"Dewch 'te," meddai Vicky.
"Gwn i lle gallwn ni gael peth.
Dilynwch fi."




Dilynon nhw Vicky ar hyd strydoedd troellog.
O'r diwedd, daethon nhw at efail y gof.
Roedd y gof yn edrych
ar garn ceffyl.
Roedd angen pedol newydd ar y ceffyl.
"Oes gwaith 'da chi, mistir?" gofynnodd Vicky.





"Fe rodda i geiniog ichi am weithio'r fegin,"
meddai'r gof.
Pwmpiodd a phwmpiodd y plant
nes bod y tân yn grasboeth goch.
Roedd yn waith caled.




Roedd y plant yn boeth a sychedig.
Aeth Vicky â nhw at bwmp dŵr
a chafodd pawb ddiod.
Yna pwmpiodd Vicky y dŵr
a golchodd y plant eu hwynebau.






Roedd eisiau bwyd ar y plant.
Aeth Vicky â nhw i siop pobydd.
Prynodd fara â'r geiniog.
Rhoddodd beth i Cad, Dids ac Onw.
Roedd y bara'n boeth ac roedd arogl da arno.




Wedyn, aeth Vicky â nhw i stryd
lle roedd wal uchel.
Roedd bachgen o'r enw Jack yn aros yno.
Edrychodd ar Cad, Dids ac Onw.
"Pwy ydyn nhw?" gofynnodd e.
"Fy ffrindiau newydd ydyn nhw," meddai hi.






Dringon nhw i gyd ar y wal.
Roedd rhaid iddyn nhw roi help i Onw.
Gallen nhw weld tŷ mawr.
"Palas Buckingham yw e," meddai Cad.
"Gwelson ni e pan ddaethon ni i Lundain
gyda Nain."



Yn sydyn, fflachiodd golau mewn ffenestr.
Fflachiodd ac yna diffoddodd.
Roedd yn fflachio ar Jack a Vicky.
Roedd lamp gan Jack. Fe'i fflachiodd yn ôl.
"Iawn," meddai. "Dewch, dilynwch fi!"






Neidiodd y plant oddi ar y wal
a rhedeg at y palas.
"Cadwch i lawr," meddai Jack, "a rhedwch yn gyflym."
Agorodd rhywun ffenestr
a rhedodd pawb tuag ati.



Roedd tri phlentyn y tu mewn.
Ŵyr ac wyresau'r Frenhines Victoria
oedden nhw.
"Maen nhw'n aros gyda'r Frenhines ond
dyw hi fawr o hwyl iddyn nhw," meddai Vicky.
"Rydyn ni'n dod i chwarae gyda nhw bob nos."



Edrychodd ŵyr ac wyresau'r Frenhines
ar Cad, Dids ac Onw.
"Fy ffrindiau newydd i ydyn nhw," meddai Vicky.
"Maen nhw wedi dod i chwarae heno."
"Grêt, nawr gallwn ni gael hwyl go iawn,"
meddai'r ŵyr.



Chwaraeodd y plant gyda'i gilydd.
Buon nhw'n chwarae mig gyntaf.
Wedyn chwaraeon nhw tag.
Hop-sgots oedd y gêm nesaf.
Dysgodd Cad a Dids iddyn nhw sut i chwarae pêl-fasged.



"Gêm dda yw hon," meddai un o'r wyresau.
"Sut dysgoch chi ei chwarae hi?"
"Gwelson ni hi ar y teledu," meddai Dids.
"Ar beth?" gofynnodd Jack.
"O...dim ots," meddai Dids.



"Mae'n hwyl chwarae mewn palas," meddai Onw.
"Welwn ni'r Frenhines Victoria?"
"Gobeithio na wnawn ni," meddai Vicky.
"Ddylen ni ddim bod yma."




"Os daw'r oedolion i wybod,
bydd trwbwl."
A'r funud honno, daeth oedolyn i mewn
a'u gweld nhw.
"O na!" meddai pawb. "Trwbwl!"



Roedd yr oedolion yn flin iawn.
Roedden nhw'n flin iawn gyda'r plant i gyd.
"Dywedais i y byddai trwbwl,"
meddai Vicky.




Anfonwyd yr ŵyr a'r wyresau brenhinol i'r gwely.
Daeth plismon i fynd â'r lleill i ffwrdd.
"Mae hyn yn fater difrifol," meddai'r plismon.
"Does dim hawl gyda chi i chwarae gydag
ŵyr ac wyresau'r Frenhines.
Dewch gyda fi."




Aeth â'r plant i swyddfa'r heddlu.
Cawson nhw eu rhoi dan glo.
"Chewch chi ddim mynd adref nes inni gael hyd i'ch mamau a'ch tadau," meddai plismon.
"O na," meddai Cad. "Byddwn ni yma am byth."

"Dydw i ddim yn hoffi'r antur hon," meddai Onw.
"Dyw hi fawr o hwyl."
Roedd e eisiau i'r allwedd hud ddisgleirio, ond wnâi hi ddim.




Drannoeth, daeth dyn pwysig
i weld y plant.
"Mae'r Frenhines wedi anfon amdanoch," meddai.
"Dewch gyda fi."
Gollyngodd y plismon nhw'n rhydd.






Aeth y dyn pwysig â nhw
i Balas Buckingham.
"Ydych chi'n meddwl eu bod nhw
am dorri'n pennau i ffwrdd?"
meddai Onw.




Roedd Nain yn cael te gyda'r Frenhines Victoria.
"Nain!" meddai Dids. "Beth rydych chi'n
ei wneud yn ein hantur ni?"
"Rwy'n cael fy antur fy hun,"
meddai Nain.



Edrychodd y Frenhines Victoria ar y plant
i gyd a gwenodd.
"Mae eich Nain wedi dweud wrthyf fi
eich bod yn blant da," meddai.
"Cewch aros i chwarae gyda fy ŵyr ac
wyresau a chael te."



Chwaraeodd y plant yn ystafell yr orsedd.
Cawson nhw ras sachau.
"Dere ymlaen, Cad," meddai Nain.
"Dewch ymlaen, Vicky," meddai'r Frenhines.
"Mae hyn yn hwyl," meddai pawb.

"Cewch chi un ras arall,"
meddai'r Frenhines, "ac yna bydd yn amser te.
Gobeithio eich bod yn hoffi sgonau
a jam mefus cartref."



Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Roedd yn bryd i'r antur ddod i ben.
"Hwyl fawr," meddai Onw.
"Diolch am gael dod."
"Roedd yn bleser," meddai'r Frenhines Victoria.
"Dewch eto."

Argraffwyd yng Nghymru

# Antur Fictoraidd

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 8



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-319-9

9 790861 743192

ISBN 0 86 174319 9

DRAKE